



Mae gen i orchymyn cynhaliaeth ond nid yw'n cael ei dalu

All y daflen hon fy helpu i?

Gall y daflen hon eich helpu os oes gennych orchymyn cynhaliaeth gan Lys Teulu yng Nghymru neu Loegr ac nad yw'r unigolyn y gorchymynnwyd iddo dalu i chi (y dyledwr) sy'n byw yng Nghymru neu Loegr yn dilyn y gorchymyn. Mae'r daflen hon yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y gallech geisio 'gorfodi'r gorchymyn cynhaliaeth' i gael eich arian.

Ni all y daflen hon eich helpu os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol: mae gennych orchymyn gan yr Uchel Lys (oni bai ei fod wedi'i gofrestru yn y Llys Teulu); trefniant teuluol gyda'r parti arall; penderfynodd yr Asiantaeth Cynnal Plant neu'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant ar faint o gynhaliaeth y dylech ei chael; gwnaed y gorchymyn cynhaliaeth y tu allan i Gymru a Lloegr; neu mae'r dyledwr bellach yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Cyfeiriwch at yr adran **Cymorth Pellach** ar dudalennau 9-11 am ragor o wybodaeth..

Cofiwch, gall staff y llys roi gwybodaeth gyffredinol am y broses i chi ond ni allant roi cyngor cyfreithiol i chi. Ni allant ddweud wrthyich pa ddull gorfodi fyddai orau i chi neu a ydych yn debygol o lwyddo.

Beth yw'r opsiynau?

Os oes arian yn ddyledus i chi am gynhالياeth (a elwir yn ôl-ddyledion cynhالياeth) gallwch naill ai wneud cais am fesur gorfodi penodol neu am fesur gorfodi y mae'r llys yn ei ystyried yn briodol.

Ni fydd rhai o'r opsiynau ar gyfer cael eich arian dim ond yn eich helpu i adennill ôl-ddyledion. Y mesurau gorfodi a ddisgrifir yn y daflen hon yw:

- gorchymyn atafaelu enillion;
- gwarant reolaeth;
- gorchymyn dyled trydydd parti;
- gorchymyn arwystlo
- gwŷs dyfarniad; a
- math o orfodaeth y mae'r llys yn ystyried yn briodol.

Cofiwch, os bydd y dyledwr â dros flwyddyn o ôl-ddyledion yn ddyledus i chi, bydd angen i chi yn gyntaf ofyn i'r llys am ganiatâd i wneud cais i orfodi.

Efallai y gofynnir i chi ddarparu datganiad yn amlinellu pam nad ydych wedi ceisio adennill yr ôl-ddyledion cyn hyn. Ymdrinnir â'r mater fel mater rhagarweiniol cyn y bydd y llys yn penderfynu sut y dylai'r dyledwr dalu unrhyw ôl-ddyledion.

Gallech hefyd geisio darganfod mwy am sefyllfa ariannol y dyledwr.

Gorchymyn atafaelu enillion

Gyda'r Gorchymyn hwn, mae cyflogwr y dyledwr yn cymryd arian o incwm y dyledwr yn rheolaidd. Dim ond os yw'r dyledwr mewn gwaith cyflogedig rheolaidd (nid hunangyflogedig) y dylech wneud cais am y gorchymyn hwn.

Cofiwch, mae trefniadau arbennig ar gyfer cael arian gan rywun sy'n aelod o'r lluoedd arfog neu'n fasnachlongwr. Gall staff y llys roi rhagor o wybodaeth i chi am eich opsiynau ond ni allant roi cyngor cyfreithiol i chi.

Gwneud cais am orchymyn atafaelu enillion

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais **N337 - cais am orchymyn atafaelu enillion**, a'i dychwelyd i'r llys gyda'ch datganiad, y ffi neu'r cais am ddileu ffi gyda thystiolaeth gefnogol os yw'n berthnasol, a chopi o'r gorchymyn cynhالياeth.

Bydd rhaid i chi fynd i wrandawriad fel arfer. Yn y gwrandawriad, bydd y barnwr yn penderfynu a yw am wneud y gorchymyn ac, os felly, faint y dylai'r dyledwr ei dalu bob mis. Os na fydd y dyledwr yn y gwrandawriad, gall y barnwr orchymyn iddynt fod yn bresennol mewn gwrandawriad arall. Os na fydd y dyledwr yn bresennol y tro hwn, gellir eu harestio a'u dwyn gerbron llys.

Unwaith y bydd gorchymyn atafaelu enillion wedi'i wneud, dylai cyflogwr y dyledwr anfon arian i'r llys a bydd y llys yn ei anfon atoch. Gall y llys gymryd camau gweithredu yn erbyn y cyflogwr os nad ydynt yn cadw at y gorchymyn.

Gwarant reolaeth

Mae gwarant reolaeth yn caniatáu i feili ymweld â chartref neu fusnes y dyledwr. Bydd y beili naill ai'n ceisio:

- casglu'r arian sy'n ddyledus i chi gan y dyledwr; neu'n
- mynd â nwyddau i'w gwerthu mewn arwerthiant.

Gwneud cais am warant reolaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiwn hwn, darllenwch y daflen **EX322 - Sut mae gofyn am warant reolaeth?**

Gorchymyn dyled trydydd parti neu orchymyn arwystlo

Mae gorchymyn dyled trydydd parti yn rhewi arian yng nghyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r dyledwr. Yna gall y llys orchymyn i'r arian sydd ar gael i chi gael ei dalu'n syth o gyfrif y dyledwr.

Mae gorchymyn arwystlo yn atal y dyledwr rhag gwerthu ei gartref neu ei dir hyd nes y bydd wedi talu'r arian sy'n ddyledus i chi.

Gwneud cais am orchymyn dyled trydydd parti neu orchymyn arwystlo

I gael rhagor o wybodaeth am y gorchymynion hyn, darllenwch daflen **EX325 - Gorchymynion dyled trydydd parti a gorchymynion arwystlo – sut mae gwneud cais am orchymyn?**

Cofiwch y gall gorchymynion dyled trydydd parti a gorchymynion arwystlo fod yn gymhleth, yn enwedig os yw'r llys eisoes wedi gwneud gorchymynion am eiddo ac arian. Efallai yr hoffech geisio cyngor cyfreithiol.

Gwŷs dyfarniad

Gyda gwŷs dyfarniad, gellid anfon y dyledwr i'r carchar os nad ydynt yn talu'r swm sydd yn ddyledus i chi. Bydd y barnwr ond yn anfon y dyledwr i'r carchar os gallwch brofi bod gan y dyledwr y swm, neu fod ganddo'r modd i dalu'r swm a'i fod yn gwrthod neu'n esgeuluso ei dalu. Gall hyn fod yn anodd ei brofi ac os na allwch ei brofi, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu costau cyfreithiol y dyledwr.

Gwneud cais am wŷs dyfarniad

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais **D62 – Cais i godi gwŷs dyfarniad**.

Bydd beili'r llys yn rhoi'r wŷs i'r dyledwr. Bydd y llys yn trefnu gwrandawriad. Yn y gwrandawriad, gall y barnwr:

- anfon y dyledwr i garchar am hyd at 6 wythnos;
- gwneud gorchymyn gohiriedig (mae hyn yn golygu na fydd y dyledwr yn mynd i garchar os bydd ef neu hi yn talu'r holl arian mewn un taliad neu randaliadau);
- gwneud gorchymyn newydd am daliad; neu
- pennu dyddiad newydd ar gyfer gwrandawriad os na fydd y dyledwr yn bresennol.

Cofiwch gall y weithdrefn gwŷs dyfarniad fod yn gymhleth ac efallai y bydd arnoch angen ceisio cymorth cyfreithiol

Gwneud cais i'r llys benderfynu ar y dull gorfodi.

Os hoffech i'r llys benderfynu ar sut y dylid gorfodi'r gorchymyn, dylech lenwi ffurflen **D50K - Hysbysiad o Gais am Orfodaeth drwy ddull gorfodi a ystyrir yn briodol gan y llys**. Bydd rhaid i'r dyledwr fynychu gwrandawriad. Bydd y barnwr wedyn yn penderfynu sut y caiff y gorchymyn ei orfodi.

Dim ond ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, a ddarperir fel arfer gennych chi, y gall y llys benderfynu beth yw'r opsiwn gorfodi orau sydd ar gael dan gais D50K.

Cofiwch, os oes gennych unrhyw fanylion pellach am incwm neu asedau'r dyledwr, atodwch ddatganiad ategol i'ch cais a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr achos a bydd yn galluogi'r llys i orfodi'n fwy effeithiol. Nid yw gwŷs dyfarniad yn ddull o orfodi sydd ar gael dan y broses D50K

Beth alla'i wneud os nad oes gen i wybodaeth am sefyllfa ariannol y dyledwr?

Os nad ydych yn sicr beth yw'r dewis gorau, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ofyn i'r llys **am orchymyn i gael gwybodaeth gan ddyledwr dyfarniad**. Mae hyn yn fodd o gael gwybodaeth am sefyllfa ariannol y dyledwr.

I gael rhagor o wybodaeth am wneud cais am orchymyn i gael gwybodaeth gan ddyledwr dyfarniad, darllenwch y daflen **EX324 - Sut mae gwneud cais am orchymyn? - Gorchmynion i gael gwybodaeth**.

Cyfeiriad (gan gynnwys cadw'ch cyfeiriad yn gyfrinachol)

Rydym angen eich cyfeiriad i gysylltu â chi. Byddwn hefyd yn rhoi eich cyfeiriad i bartion eraill er mwyn iddynt allu rhoi copi i chi o'u hymateb i'ch cais.

Os nad ydych yn dymuno i rywun wybod beth yw eich cyfeiriad neu eich rhif ffôn chi neu'r plentyn, nid oes rhaidd i chi eu rhoi ar y ffurflenni cais. Ond bydd yn rhaid i chi roi'r cyfeiriad i'r llys serch hynny ac mae ffurflen arbennig i chi wneud hyn. Dylech lenwi a chyflwyno Ffurflen C8 'Cyfeiriad Cyfrinachol' gyda'ch cais.

Ble alla i wneud cais?

Os cafodd eich gorchymyn cynhالياeth ei wneud yng Nghymru neu Loegr, mae'r dyledwr yn byw yng Nghymru neu Loegr a bod taliadau yn cael eu gwneud rhwng y partion yn uniongyrchol, dylech wneud cais i'ch Llys Teulu dynodedig agosaf. Mae rhestr lawn o'r Llysoedd Teulu ar gael oddi ar ein gwefan: courttribunalfinder.service.gov.uk

Bydd angen i chi ddewis y categori '**Plant: materion cyswllt â phlant ac anghydfodau ynghylch taliadau cynhالياeth**' i ddod o hyd i'ch Llys Teulu dynodedig agosaf.

Os cafodd eich gorchymyn cynhالياeth ei wneud yng Nghymru neu Loegr, mae'r dyledwr yn byw yng Nghymru neu Loegr a bod taliadau yn cael eu gwneud drwy'r llys, dylech wneud cais i'r Ganolfan Fusnes Gorfodi Cynhالياeth ddynodedig agosaf. Bydd ble rydych yn gwneud y cais yn dibynnu ar ble mae'r dyledwr yn byw bellach - Cymru, Lloegr (ac eithrio Llundain) neu Lundain.

Canolfan Fusnes Gorfodi Cynhالياeth – Cymru

Canolfan Cyfiawnder Port Talbot, Ffordd Harbourside, Port Talbot, De Cymru, SA13 1SB

Ffôn: 01639 642267

E-bost: Wales_MEBC@hmcts.gsi.gov.uk

Canolfan Fusnes Gorfodi Cynhaliaeth – Lloegr (gan eithrio Llundain)

Triton House, St Andrews Street North, Bury St Edmunds, Suffolk IP33 1TR

Ffôn: 0300 123 3034

E-bost: MEBC.BSE@hmcts.gsi.gov.uk

Canolfan Fusnes Gorfodi Cynhaliaeth - Llundain

Central Family Court, First Avenue House, 42-49 High Holborn, Llundain, WC1V 6NP

Ffôn: 020 7421 8657

E-bost: MEBC.London@hmcts.gsi.gov.uk

Ffi gwneud cais

Mae ffi yn daladwy ar gyfer pob opsiwn a eglurir yn y daflen - oni bai bod eich gorchymyn cynhaliaeth wedi ei gofrestru yn y Llys Teulu cyn 22 Ebrill 2014.

Cofiwch, os cafodd eich gorchymyn cynhaliaeth ei gofrestru yn y Llys Teulu cyn 22 Ebrill 2014, nid oes ffi gwneud cais yn daladwy.

Am ragor o wybodaeth am ffioedd, gweler y llyfryn **EX50 - Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu**.

Os na allwch fforddio talu ffi'r llys, gallech fod yn gymwys i gael y ffi wedi'i dileu'n llawn neu'n rhannol. Mae'r llyfryn a'r ffurflen gais ar y cyd, **EX160A - Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd – Oes rhaid i mi eu talu?** yn rhoi'r holl wybodaeth y byddwch ei hangen.

Cymorth pellach

Taflenni a ffurflenni – Mae pob taflen a ffurflen y soniwyd amdanynt yn y daflen hon ar gael mewn unrhyw Lys Teulu, Canolfannau Busnes Gorfodi Cynhaliaeth ac ar ein gwefan: hmctsformfinder.justice.gov.uk

Cyngor Cyfreithiol – Os oes gennych gyfreithiwr, bydd ef neu hi yn gallu eich helpu. Os nad oes gennych gyfreithiwr, efallai y gallech gael help gan ganolfan y gyfraith, canolfan cyngor i ddefnyddwyr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Mae manylion gwasanaethau lleol i'w gweld yn eich cyfeirlyfr ffôn.

Gorchymyn o'r Uchel Lys – If you have a High Court order some of the procedures are slightly different from those described in this leaflet. Contact the designated Family Court nearest to where the debtor lives or works for general process information.

Trefniant teuluol – Os oes gennych drefniant teuluol a wnaethoch gyda'r rhiant arall ac nad yw'n gweithio, ffoniwch Opsiynau Cynhaliaeth Plant ar 0800 988 0988.

Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) neu Wasanaeth Cynhaliaeth Plant– IOs gwnaethoch gais i'r CSA neu'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant am gynhaliaeth plant ac nad yw'r arian sy'n ddyledus i chi'n cael ei dalu, ffoniwch 0345 713 3133 neu 0345 266 8792 (codir pris galwad leol)

Gwnaed gorchymyn cynhaliaeth y tu allan i Gymru a Lloegr a/neu mae'r dyledwr yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Os gwnaethpwyd eich gorchymyn cynhaliaeth yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond bod y dyledwr yn byw yng Nghymru neu Loegr, mae'n rhaid i chi gofrestru'r gorchymyn mewn Llys Teulu yng Nghymru neu Loegr, yr agosaf i ble mae'r dyledwr yn byw, cyn y gallwch ei orfodi. Dylech wneud eich cais i Ganolfan Fusnes Gorfodi Cynhaliaeth sydd wedi ei lleoli agosaf i ble mae'r dyledwr yn byw (gweler tudalen 5 i gael manylion cyswllt)

Os gwnaethpwyd eich gorchymyn cynhaliaeth yng Nghymru neu Loegr, ond bod y dyledwr yn byw yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, mae'n rhaid i chi ei gofrestru yn Yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyntaf.

Os yw'r dyledwr bellach yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu os gwnaed y gorchymyn y tu allan i'r Deyrnas Unedig, efallai y byddwch dal yn gallu ei orfodi. Mae gan rai gwledydd gytundeb â'r DU er mwyn i orchmynion a wneir yno gael eu cofrestru yma ac i'r gwrthwyneb. Gweler taflen **REMO 20** - Canllaw i Gydfoddi Gorchmynion Cynhaliaeth

I gael rhagor o wybodaeth am geisiadau cynhaliaeth rhyngwladol, cysylltwch â:

REMO Unit, Official Solicitor and Public Trustee, Victory House, 30-34 Kingsway, Llundain, WC2B 6EX

Ffôn: 020 3681 2757

Ffacs: 020 3681 2764

E-bost: remo@offsol.gsi.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/child-maintenance-if-one-parent-lives-abroad